

Proffil Disgybl

Enw : Disgybl 1

Dyddiad Geni: ##/##/####

Blwyddyn 3

Dosbarth Cofrestru – HT

Dosbarth Dysgu – Caer



Cymraeg – Lefel 3

Llafaredd – Lefel 3

Mae disgybl 1 wedi dangos sgiliau llafaredd uchel iawn mewn gwersi Cymraeg i gyd yr hanner tymor yma. Mae disgybl 1 yn hyderus iawn yn siarad trwy'r Gymraeg ac yn gallu cyfathrebu ac ehangu syniadau yn abl iawn. Mae disgybl 1 yn barod iawn i gynnig sylwadau ac yn ymateb yn briodol iawn ar gyfer yr angen.

Darllen – Lefel 3

O fewn fy nghyfleoedd i o weld disgybl 1 yn darllen mae wedi profi i fod yn ddarllenwr abl ac yn hyderus iawn pan yn darllen o flaen y dosbarth. Mae disgybl 1 yn gydwybodol iawn o'i sgiliau darllen ac mae'n cymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu ei hunan fel darllenwr gwell.

Ysgrifennu – Lefel 3

Mae sgiliau ysgrifennu disgybl 1 hefyd yn uchel iawn am ei hoedran. Mae'n amlwg ei bod yn deall sut i ffurfio a chysylltu brawddegau a chymalau yn ddealladwy ac yn drefnus. Mae disgybl 1 yn medru defnyddio cysrawennau amrywiol Cymraeg ac yn defnyddio paragraffu'n effeithiol yn eu gwaith.

Saesneg – Lefel 2

Llafaredd/Oracy – Lefel 2

Mae disgybl 1 yn rhannol hyderus pan yn cyfathrebu yn y Saesneg. Mae'n ymdrechu'n galed i wella a gweithio ar ei sgiliau llafaredd Saesneg ond os dydy disgybl 1 ddim yn gwybod sut i ddweud beth mae eisiau dweud yna fe wnaeff hi ofyn i gyfathrebu'n y Gymraeg.

Darllen/Reading – Lefel 3

Mae darllen disgybl 1 yn y Saesneg yn hyderus iawn ac mae disgybl un yn datblygu'n ddarllenwr abl iawn. Mae disgybl 1 yn medru darllen ar goedd yn hyderus iawn ac yn medru cysylltu geiriau yn gywir pan yn darllen ac adnabod atalnodi trwy ddarllen.

Ysgrifennu/Writing – Lefel 2

Credaf bod disgybl 1 yn mwynhau ysgrifennu yng Nghymraeg a Saesneg ond gan mai ddim Saesneg yw iaith naturiol disgybl 1 yna dydy hi ddim mor hyderus yn bersonol gyda'i sgiliau ysgrifennu Saesneg ag yn y Gymraeg. Mae gallu disgybl 1 i ysgrifennu yn y Saesneg yn dda ond byddaf eisiau rhoi hwb ar hyder y disgybl.

Mathemateg – Lefel 3

Rydyn ni wedi dilyn 5 agwedd o fathemateg dros yr hanner tymor yma sef gwerth lle a dilyniant rhif, deall lluosï a rhannu, ffraciynau, trin data ac Amser. Mae disgybl 1 wedi cymryd agwedd brwdrfrydig iawn tuag at ei addysg o fewn y dosbarth. Mae llawer o'r gwybodaeth mathemategol o fewn yr hanner tymor diwethaf wedi bod yn gwbl newydd ond roedd gwybodaeth a dealltwriaeth uchel blaenorol disgybl 1 wedi helpu yn fawr iawn. Roedd yn bleser iawn gweld disgybl 1 yn ymdrechu'n galed gyda'i datblygiad mathemategol ac yr awydd i lwyddo gyda'i gwaith. Mae sgiliau mathemategol da iawn gan disgybl 1 a dydy ddim yn ofn dangos rhain ychwaith. Mae disgybl 1 wedi dangos enghreifftiau o'r tri sgil sydd yn cael eu nodi yng Nghwricwlwm trwy gydol yr hanner tymor yma ac wedi gwneud cynnydd amlwg ers dechrau'r hanner tymor.

Proffil Disgybl

Enw : Disgybl 2

Dyddiad Geni: ##/##/####

Blwyddyn 3

Dosbarth Cofrestru – HT

Dosbarth Dysgu – Caer



Cymraeg – Lefel 2

Llafaredd – Lefel 1

Mae disgybl 2 yn ddisgybl swil o ran ymateb yn y dosbarth ond mae ei sgiliau meddwl yn eang iawn. Mae disgybl dau ddim yn hoff iawn o siarad o flaen y dosbarth ond mae beth mae'n ei ddweud yn gywir ac yn ychwanegu at y gwersi.

Darllen – Lefel 2

Mae darllen disgybl 2 yn lefel cyrhaeddol cywir ar gyfer ei oedran ac mae'n hapus iawn i ddarllen ar ben ei hunan. Mae sgiliau llafaredd a hyder disgybl 2 yn ei ddal yn ôl pan mae'n trio darllen o flaen y dosbarth oherwydd ei fod yn swil ac yn mynd yn nerfus iawn pan mae angen iddo ddarllen o flaen y dosbarth.

Ysgrifennu – Lefel 2

Rydw i yn ddigon hapus gyda sgiliau ysgrifennu Cymraeg disgybl 2 ar y cyfan. Er bod y sillafu ddim bob tro yn gywir mae cynnwys yr ysgrifen yn dda iawn ac yn gwneud synnwyr da. Mae disgybl 2 wedi gwneud ystyr ac yn deall ffonetig geiriau oherwydd mae'n sillafu geiriau fel mae ef yn eu clywed.

Saesneg – Lefel 2

Llafaredd/Oracy – Lefel 1

Mae sgiliau Saesneg disgybl 2 yn debyg iawn i'w Gymraeg. Mae diffyg hyder siarad gyda disgybl 2 felly mae angen gweithio ar hyn gydag ef. Er bod sgiliau llafaredd y plentyn yn îs rydw i wedi gweld cynnydd mawr yn ei sgiliau a hyder i gyfathrebu tu-allan i amgylchedd dosbarth allan ar y iard neu mewn sgwrs gyffredinol.

Darllen/Reading – Lefel 2

Mae disgybl 2 yn mwynhau darllen ond mae'n well ganddo ddarllen Cymraeg. Mae darllen Saesneg yn cymryd at ddant disgybl 2 ond byddai'n braf gweld disgybl 2 yn cael mwy o ymarfer gyda'r Saesneg. Eto pan yn darllen o flaen y dosbarth mae'n llwyddo ond mae hyder a sgiliau llafaredd y plentyn yn ei adael i lawr yn anffodus.

Ysgrifennu/Writing – Lefel 2

Mae sgiliau ysgrifennu disgybl 2 yn dda iawn o ran cynnwys. Mae'n medru llunio a ffurfio brawddegau yn hyderus, ac mae'n amlwg bod y disgybl yn ymdrechu'n fawr i lwyddo. Mae disgybl 2 yn tueddu i sillafu yn ffonetig felly sialens ar gyfer disgybl 2 yw symud ymlaen at ddefnyddio strategaethau ehangach ar gyfer sillafu.

Mathemateg – Lefel 3

Mae disgybl 2 wrth ei fodd gyda gwaith mathemategol ac mae'n hawdd dweud mae dyma'i gryfder. Mae disgybl 2 wedi medru caffael bob un o agweddau gwersi Mathemateg yr hanner tymor yma yn ddi-ffwdan. Mae'n ddisgybl sydd eisiau llwyddo yng ngwersi ond yn enwedig mewn gwersi Mathemateg oherwydd ei fod yn mwynhau gweithio gyda rhifau. Mae disgybl 2 yn benderfynol iawn gyda'i fathemateg oherwydd ei fod eisiau llwyddo ac mae e wedi llwyddo gyda'r gweithgareddau Mathemateg i gyd yr hanner tymor yma. Mae'n dangos y tri sgil o fewn Mathemateg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru ac yn cwrdd ag yn defnyddio ystod eang o strategaethau sydd yn ei helpu i lwyddo gyda'i ddatblygiad a dealltwriaeth Mathemategol.